

Canllawiau i Ymgeiswyr

Prosiectau mewn Ysgolion



Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau amrywiol ysgolion yn eu cymunedau lleol. Er na allwn ariannu ysgolion yn uniongyrchol, gallwn ystyried ceisiadau gan Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon (neu cyrff tebyg), a chan sefydliadau neu fusnesau allanol sy'n darparu gweithgareddau y tu hwnt i'r cwricwlwm mewn ysgolion.

Ni all y Gronfa gefnogi:

- gweithgareddau neu wasanaethau y mae gan ysgolion gyfrifoldeb statudol i'w darparu, h.y. cyflwyno'r cwricwlwm neu weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ef (rhifedd, llythrennedd ac ati);
- prynu offer a fydd yn cael eu defnyddio yn ystod oriau ysgol yn unig i gyflwyno'r cwricwlwm.

Gall y Gronfa gefnogi, o bosib:

- darparu gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion – e.e. prosiectau cerddoriaeth, prosiectau ffilm, prosiectau drama, datblygu sgiliau arwain, meithrin hyder, paratoi ar gyfer cyfweiliadau am swyddi;
- gwelliannau i dir yr ysgol sydd (yn ddelfrydol) yn cael eu defnyddio gan eraill yn ogystal â chan ddisgyblion-e.e. offer chwarae, prosiectau tyfu, ysgol goedwig, gweithgareddau rhwng y cenedlaethau. Dylid cynnwys tystiolaeth mewn cynlluniau ysgol o'r angen, y dull cyflawni a'r cynlluniau cynnal a chadw ar gyfer prosiectau o'r fath;
- gweithgareddau cymunedol a gyflwynir mewn ysgolion – e.e. datblygu sgiliau, campfeydd, gwasanaethau undebau credyd, gweithgareddau diwylliannol.

Gweler hefyd ein Nodyn Cyfarwyddyd ar gyfer Meysydd Chwarae Cymunedol